

WALTERS, GARETH (1928-2012), cyfansoddwr

Enw: Gareth Walters
Dyddiad geni: 1928
Dyddiad marw: 2012
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cyfansoddwr
Maes gweithgaredd: Cerddoriaeth
Awdur: Rhidian Griffiths

Ganed Gareth Walters yn Abertawe, 27 Rhagfyr 1928, yn fab i **Irwyn R. Walters** (1902-1992) a'i wraig Margaret Jane (ganwyd Edwards). Dechreuodd gyfansoddi yn ystod ei ddyddiau ysgol, ac fe'i cefnogwyd gan Benjamin Britten, a oedd yn gyfaill i'r teulu. Aeth i astudio yn yr Academi Gerdd Frenhinol yn 1949 ac yn 1952 i Baris, gydag ysgoloriaeth i'r Conservatoire Nationale, lle'r astudiodd gyda Jean Rivier ac Olivier Messiaen. Wedi cyfnod yn astudio yn Siena yn yr Eidal dychwelodd i swydd ddysgu yn Adran Iau yr Academi Gerdd, gan ddysgu disgyblion iau yn bennaf, a phrofi'n ddylanwad adeiladol ac uchel ei barch. Yn 1956 derbyniodd swydd cynhyrhydd gyda'r BBC, a bu yno tan ei ymdeoliad, tra'n parhau i ddysgu yn yr Academi a chyfansoddi llawer ar gyfer darlledu. Bu hefyd yn arholwr i Fwrdd y Colegau Cerdd Brenhinol ac yn gyfarwyddwr cerddorol Gŵyl Gerdd Gŵyr.

Yn ei gyfansoddi rhagorai yn y ffurfiau llai ac ni fentrodd ar weithiau estynedig, er iddo lunio simffoni fer, *Sinfonia breve*, yn 1964. Ei waith mwyaf adnabyddus yw ei *Divertimento for string orchestra*, a luniwyd yn 1960 ac a recordiwyd sawl gwaith. Ymhlith ei weithiau eraill a recordiwyd mae *A Gwent suite* (1959), *Elegy* (1969) i gerddorfa linyddol, ac agorawd, *Primavera* (1962), *Little suite for harp a Capriccio for guitar* (1980).

Priododd yn 1969 â Glenys Jones. Bu farw yn Kingston, Surrey ar 31 Mai 2012.

Awdur

Rhidian Griffiths

Ffynonellau

The Independent, 27 Gorffennaf 2012

Toccata Classics (cyrchwyd 7 Ebrill 2014)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 33418423

Wikidata: Q5522989

Dyddiad cyhoeddi: 2014-06-06

Hawlfraint Erthygl: <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiaid Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

Grannu

Arddull APA

x

Griffiths, R., (2014). WALTERS, GARETH (1928-2012), cyfansoddwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c10-WALT-GAR-1928>

Griffiths

Preifatrwydd a Chwci
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government